



Datganiad i'r cyfryngau
Mercher 20 Ebrill 2022
I'w ryddhau ar unwaith

Sinema Cymru i Archwilio Hanes Llechi a Chaethwasiaeth ar y Sgrin

Mae tymor ffilm newydd gan linyr Gwnaethpwyd yng Nghymru Canolfan Ffilm Cymru o'r enw 'To Llechi ar gyfer Pob Tŷ' yn dod i sinema yn 2022.

Fe fydd y daith yn dathlu statws treftadaeth y byd UNESCO tirwedd llechi Gogledd Orllewin Cymru gan roi cyfle i gynulleidfaoedd Cymru ddysgu am y cysylltiadau llai adnabyddus Cymru gyda'r Fasanach Caethwasiaeth Atlantig.

Gydag Archif Sgrin a Sain yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, mae Canolfan Ffilm Cymru wedi datblygu rhaglen deithiol o ffilmiau archif a ffilmiau Cymreig yn amlygu hanes y chwareli yng Nghymru, ei effaith ar gymunedai a chysylltiadau gyda phrosiectau trefedigaethol ehangach dan arweiniad yr Ymerodraeth Brydeinig. Mae'r pecyn yn cynnwys amrediad o ffilmiau o *Slate Quarrying* (1946) sydd yn darlunio bywyd gwaith yn Chwrae y Penrhyn, 1200 troedfedd o ddyfnder, ym Methesda i *Cut Me Loose* (1998), ffilm bersonol a ysgrifenyddwyd ac a gyflwynwyd gan y bardd rap a'r hanesydd David Brown, o dras cymysg Du Jamaicaidd a Gwyn Cymreig.

I lansio'r sgwrs mae Canolfan Ffilm Cymru hefyd wedi dwyn ynghyd banel o siaradwyr arbenigol, Yvonne Connick (curadydd ffilm), Abu-Bakr Madden Al Shabazz (hanesydd ac anthropolegydd diwylliannol), Charlotte Williams (awdur *Sugar and Slate*) ac Emlyn Roberts (cyn chwarelwr). Gall cynulleidfaoedd wrando ar y sgysiau yn y sinema sydd yn cymryd rhan.

Mae AbuBakr yn esbonio pwysigrwydd delio gyda hanes Cymru ar y sgrin:

"Mae gweld hanes Cymru ar y sgrin yn dangos y cyfoeth sydd gan orffennol y genedl yma ar ei datblygiad cymdeithasol a gwleidyddol yn yr 21ain ganrif. Mae gan Gymru fel cenedl a hanes Cymru fel pwnc, hen gymdeithas amlddwylliannol oherwydd ei chysylltiadau gyda masnach cyn ac yn ystod diwydianeiddio. Fe fydd darlunio dimensiwn amlddiwylliannol cymdeithas Gymreig yn cynnal cywirdeb wrth gofnodi ein gorffennol, gan ddangos cynhwysiant ein cenedl fodern a'r hyn y mae'r holl grwpiau wedi ei gyfrannu dros amser."

Datblygwyd y prosiect yn dilyn cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2021 bod statws Safle Treftadaeth y Byd UNESCO wedi ei roi i dirwedd llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r tymor yn adlewyrchu amgylcheddau gwledig traddodiadol. My mynyddoedd a dyffrynnoedd gan greu bywoliaeth i'r rhai oedd yn gweithio yn y chwareli am dros 200 mlynedd.

Roedd chwareli llechi Gogledd Cymru yn gysylltiedig hefyd gyda hanes mwy treisgar gan fod llawer o gyfoeth y perchnogion caethweision fel yr Arglwydd Penrhyn, wedi ei ddefnyddio i ehangu'r chwareli a hyd yn oed adeiladu rhai trefi a dinasoedd yng Nghymru. Bwriad y tymor ydy edrych ar sefyllfa gymhleth Cymru fel aelod trefedigaethol ac un a elwodd o'r cyfoeth a grewyd gan yr Ymerodraeth Brydeinig drwy gynhyrru llechi.

Dywedodd Hana Lewis, Rheolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru:

"Mae cyhoeddiad treftadaeth y byd UNESCO yn arwyddocaol i Gymru. Mae'n rhoi cyfle anhygoel i ddathlu ei hanes balch o chwareli llechi ar y sgrin drwy gasgliad diddorol o ffilmiau. Mae'n hanfodol

hefyd ein bod yn edrych yn ddyfnach ac rhoi cyd-destun i straeon llai adnabyddus o ran llafur y dosbarth gweithiol a'r Fasnach Gaethwasiaeth Atlantig. Mae'r daith yn rhoi cyfle i gynulleidfaeodd ddarganfod elfennau o ddiwylliant Cymreig sydd yn sylfaenol i bwy ydyn ni."

Mae sinemau ar draws Cymru yn bwriadu cynnal gweithgareddau thema ar hyd y flwyddyn. Ym Mlaenau Ffestiniogm cartref i Chwarel Llechwedd, mae CELLb yn bwriadu cynnal penwythnosau Gŵyl Ffilm Chwarel gyda 2 benwythnos o weithgareddau ar y thema llechi. Fe fyddan nhw yn cysylltu cynulleidfaeodd gyda chwarelwyr oedd yn gweithio yn y chwarel ac yn cynnal sgwrsiau am deuluoedd y Penrhyn a Pennant a'u cysylltiadau gyda chaethwasiaeth.

Ychwanegodd Iola Baines, Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru:

"Mae'r Archif yn gweithio'n galed i sicrhau bod cynulleidfaeodd Cymreig o bob oed yn gallu cael mynediad i'w treftadaeth sgrin. Rydym yn gyffrous i fod yn gweithio gyda Chanolfan Ffilm Cymru i ddod â 'To o Lechi i bob Tŷ' yn fyw – o'r ffilmiau archif byr yn dangos bywydau chwarelwyr i'r 'Chwarelwr' (y ffilm siarad Gymraeg gyntaf erioed) a ffilmiau dogfen yn cysylltu llechi a gwladychiaeth. Mae'r ffilmiau yma yn amlygu pwysigrwydd pobl, lleoedd a digwyddiadau Cymru na ddylid fyth eu anghofio. Mae ffilmiau archif Cymreig yn cynnwys ein gorffennol a'n dyfodol – dyma sut y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu cael mynediad i'w diwylliant a'u hanes. Mae'n hanfodol bod ein gwaith yn parhau i gael ei gefnogi a'i fod yn hygyrch i'r cyhoedd drwy sinemau ."

Gall cynulleidfaeodd weld newyddion am ffilmiau sydd i ddod ar yr adran gwnaethpwyd yng Nghymru ar wefan Canolfan Ffilm Cymru neu drwy ddilyn @Filmhubwales ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae Gwnaethpwyd yng Nghymru yn derbyn cyllid gan Creative Wales a chyllid y Loteri Cenedlaethol drwy Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm (FAN) BFI DU gyfan. Fel rhan o FAN, mae Canolfan Ffilm Cymru yn datblygu cynulleidfaeodd ar gyfer ffilmiau annibynnol Prydeinig a rhyngwladol drwy gydol y flwyddyn. Gweninyddir cyllid yng Nghymru gan Ganolfan Ffilm Cymru drwy Chapter fel y Corff Arweiniol Canolfannau Ffilm.

Calff dros £30M ei godi bob wythnos i achosion da ar draws y DU gan y Loteri Cenedlaethol.

- Diwedd -

Dangosiadau wedi eu cadarnhau (cyhoeddir rhagor o ddigwyddiadau drwy gydol 2022).

Cellb, Blaenau Festiniog

10-12 a 17-19 Mehefin 2022 (i'w gadarnhau)

Fe fydd Gŵyl Ffilm y Chwarel yn cynnwys dau benwythnos o weithgareddau ar thema chwarel/llechi yn cynnwys dangosiadau ffilm, trafodaethau a gweithdai crefft llechi i bobl ifanc creadigol (fel hollti llechi). Cynhelir panel trafodaeth cymdeithas hanesyddol gyda'r grŵp ieuencid Clwb Clinec a sgwrs panel gyda chwarelwyr fu'n gweithio yn y chwarel. Fe fydd themâu yn cynnwys teuluoedd y Penrhyn a Pennant a'u cysylltiadau gyda chaethwasiaeth a chwestiwn o 'pwy sydd ar goll' pan fyddwn yn meddwl am bobl a lleoedd yn gysylltiedig gyda chwarel llechi.

Cerddoriaeth a Ffilm Cymunedol TAPE, Bae Colwyn

9 Mai 2022 (i'w gadarnhau)

Fe fydd ffilmiau archif byr yn cael eu dangos ochr yn ochr gyda thrafodaeth panel y Stori Gyflawn a sgwrs yn dilyn y dangosiad gyda Dr Marian Gwyn - ymgyngorydd treftadaeth yn arbenigo yn y fasnach caethwasiaeth a gwladychiaeth. Gan ddefnyddio'r pecyn adnoddau To o Lechi fe fydd TAPE yn edrych ar y syniad 'pwy sydd ar goll?' o straeon sgrin o amgylch llechi cyn arwain gweithdai lle bydd cyfranogwyr yn cynhyrchu gwaith celf llechi mewn ymateb i'r pynciau a godwyd. Caiff y gwaith ei arddangos yn oriel TAPE o 27 Mai, ochr yn ochr gyda ffilm fer o'r darnau gorffenedig.

[Canolfan Gelfyddydau Aberystwyth](#)

Mehefin / Gorffennaf (i'w gadarnhau)

Trwy sgwrsiau a dangosiadau ffilm, gan gynnwys ffilmiau byrion archif o Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru, bydd Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn amlygu agweddau ar fwyngloddio llechi yng Nghymru sydd yn draddodiadol wedi bod yn absennol o'r naratifau sy'n ymwneud â hanes llechi yng Nghymru.

[Off Y Grid](#)

Dyddiad i'w gadarnhau

Rhwydwaith ydy Off Y Grid o 7 lleoliad ar draws Gogledd Cymru sydd yn cydweithio ar weithgareddau fforddiadwy drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo ffilmiau annibynnol a diwylliant bydeang i gynulleidfaedd gwledig yn eu sinema annibynnol leol. Fe fyddan nhw yn cydweithredu ar fenter ar y cyd gan gynnwys hanesydd lleol i roi cyd-destun i'r casgliad o ffilmiau.

[Theatr y Ddraig, y Bermo](#)

Dydd Sul 26 Mehefin 2022 (TBC)

Fe fydd y theatr yn dangos Y Chwarelwr, y ffilm siarad gyntaf erioed yn Gymraeg, yn dilyn bywyd chwarelwr ym Mlaenau Ffestiniog. Yna fe fydd ffilm ddogfen fer hefyd, 'O'r Graig' am y diwylliant llechi yng Ngogledd Cymru a sesiwn holi ac ateb gyda siaradwr gwadd arbennig.

Asedau To o Lechi i Bob Tŷ:

- *Lluniau llonydd ffilm,*
- *Rhagddangosydd tymor,*
- *Rhaglen ddigidol gyda rhestr oi ffilmiau,*
- *Sgwrs gyda haneswyr Cymreig ac arbenigwyr lleol (fideos hyd llawn a byr ar gael)*

Hashnod:

#ARofofSlate

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

Radha Patel, Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru / radha@filmhubwales.org

Lisa Nesbitt, Swyddog Datblygu, ar 02920 311 067 / lisa@filmhubwales.org

Hana Lewis, Rheolwraig Strategol, ar 02920 353 740 / hana@filmhubwales.org

Silvia Sheehan, Swyddog Cyfathrebu / silvia@filmhubwales.org

Am Ganolfan Ffilm Cymru

Mae Canolfan Ffilm Cymru (FHW) yn dathlu sinema. Rydym yn cefnogi sefydliadau sy'n dangos ffilm, o wyliau ffilm, i gymdeithasau a chanolfannau celfyddydau cymysg. Gan weithio gyda dros [315 o arddangoswyr Cymreig](#), ein nod yw dod â'r ffilm Brydeinig a rhyngwladol orau i bob cynulleidfa ledled Cymru a'r DU. Ers sefydlu Canolfan Ffilm Cymru yn 2013, rydym wedi cefnogi dros 250 o brosiectau sinema cyffrous, gan gyrraedd dros 480,000 o aelodau cynulleidfa.

Rydym yn rhan o rwydwaith o wyth canolfan ledled y DU sy'n cael eu hariannu gan y Sefydliad Ffilm Prydeinig (BFI) sy'n ffurfio'r [Rhwydwaith Cynulleidfa Ffilm \(FAN\)](#), gyda [Chapter](#) wedi'i phenodi'n 'Film Hub Lead Organisation' (FHLO) yng Nghymru. Rydym hefyd yn falch o arwain ar strategaeth [sinema cynhwysol](#) ar ran FAN BFI.

[Website](#), [Twitter](#), [Facebook](#), [Instagram](#)

Am Rwydwaith Cynulleidfa Ffilm BFI

Gyda chefnogaeth cyllid y Loteri Cenedlaethol, mae FAN BFI yn ganolog i nod y BFI o sicrhau bod y dewis mwyaf o ffilm ar gael i bawb. Wedi'i sefydlu yn 2012 i adeiladu cynulleidfaedd sinema DU ehangach a mwy amrywiol i ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, mae FAN yn gydweithrediad DU gyfan, unigryw sydd yn cynnwys wyth o ganolfannau a reolir gan gyrrff a lleoliadau ffilm amlwg wedi'u lleoli'n strategol o amgylch y wlad. Mae FAN hefyd yn cefnogi datblygiad talent gyda Swyddogion Talent Rhwydwaith BFI ym mhob un o'r canolfannau yn

Lloegr, gyda chenhadaeth o ddarganfod a chefnogi awduron, cyfarwyddwyr a chyfarwyddwyr talentog ar ddechrau eu gyrfaedd.

Canolfannau Ffilm FAN BFI:

- Canolfan Ffilm y Midlands dan arweiniad Broadway, Nottingham yn gweithio mewn partneriaeth gyda Flatpack Birmingham
- Canolfan Ffilm Gogledd Lloegr dan arweiniad Showroom Workstation, Sheffield a HOME Manceinion
- Canolfan Ffilm De Ddwyrain Lloegr dan arweiniad Swyddfa Sinema Annibynnol
- Canolfan Ffilm De Orllewin Lloegr dan arweiniad Watershed ym Mryste
- Canolfan Ffilm yr Alban dan arweiniad Glasgow Film Theatre
- Canolfan Ffilm Gogledd Iwerddon dan arweiniad Queen's University Belfast
- Canolfan Ffilm Cymru dan arweiniad Chapter yng Nghaerdydd
- Canolfan Ffilm Llundain dan arweiniad Film London

[Gwefan BFI FAN](#)

Am BFI

Rydym yn elusen diwylliannol, dosbarthydd y Loteri Cenedlaethol a chorff arweiniol y DU ar gyfer ffilm a'r ddelwedd symudol. Ein cenhadaeth ydy:

- Cefnogi creadigrwydd a chwilio am y genhedlaeth nesaf o adroddwyr straeon y DU
- Tyfu a gofalu am Archif Cenedlaethol BFI, archif ffilm a theledu mwyaf y byd
- Cynnig yr amrediad ehangaf o ddiwylliant delwedd symudol DU a rhyngwladol drwy ein rhaglenni a'n gwyliau – ar-lein ac mewn lleoliadau
- Defnyddio ein gwybodaeth i addysgu a dyfnhau gwerthfawrogiad a dealltwriaeth y cyhoedd
- Gweithio gyda Llywodraeth a diwydiant i sicrhau twf parhaol diwydiannau sgrin y DU

Wedi'i sefydlu ym 1933, mae'r BFI yn elusen cofrestredig a reolir gan Siarter Brenhinol. Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr BFI ydy Tim Richards.

Am Chapter

Chapter ydy un o ganolfannau celfyddydau mwyaf, a mwyaf deinamig Ewrop gyda sinemau, theatrau, gofod arddangos, stiwdios a chaffi, bariau arobryn a dros 60 gofod gweithio diwylliannol a mwy. Mae gan Chapter enw da rhyngwladol am ragoriaeth, arloesi a chydweithredu. Mae'n cynnig rhaglen newidiol barhaus o ffilmiau ac arddangosfeydd gorau o Gymru ac o amgylch y byd.

[Website](#), [Facebook](#), [Twitter](#)

Am Cymru Greadigol

Mae Cymru Greadigol yn un o asiantaethau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi datblygiad y diwydiant creadigol sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru. Rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu a hyrwyddo twf ar draws y sectorau Sgrin, Digidol, Cerddoriaeth a Chyhoeddi, gan leoli Cymru fel un o'r lleoedd gorau yn y byd i fusnesau creadigol ffynnu.

[Website](#), [Twitter](#)